

# PERTHYN

Chwefror 2026

Rhifyn 344

## Calan

Un eiliad, pan symudodd bys y cloc  
rhyw fymryn, mymryn bach. Fel hyn bob tro:  
ton yn darfod, ac ylwch sut mae'r broc  
yn gorwedd hyd y lle, diferion co'  
yr hyn a fu; holl leisiau'r graean mân  
yn sibrwdd eu hanesion, pawb trwy'r trwch,  
yn nodau tawel olaf un y gân;  
a lle bu tanllwyth nosau'r traeth, mae llwch.  
Ond wedi trai mae llanw newydd a  
hafau hirion glas, stormydd sy'n llawn lliid,  
yn derfysg ac addewid hufen ia,  
ac eto'n gyfrinachau mawr i gyd.  
Un eiliad, wedi symud bys y cloc,  
mae'n flwyddyn newydd, down i'w nabad...toc.

Dafydd John Pritchard



## Gair y Gweinidog



Wn i ddim amdanoch chi ond dwi wedi syrffedu gyda'r enw TRUMP! O fore gwyn tan nos, 'rwy'n clywed yr enw TRUMP! Dwi'n edrych ar y Cyfryngau Cymdeithasol, yn gwrando ar y newyddion, yn darllen y papurau dyddiol ac mae o yna! Prysured y dydd pryd na fydd yna unrhyw sôn amdano ynghyd â'i eiriau a'i weithredoedd plentynaid, gwallgof! O am y diwrnod pryd y bydd y cyfan yn rhan o'r gorffennol ac y gallwn symud ymlaen fel byd a gwareiddiad.

Tydw i ddim yn wleidydd ac felly ni allaf ddadansoddi'n gywir y sefyllfa sy'n bodoli yn yr Amerig a thu hwnt; digon yw dweud bod y gefnogaeth i Trump yn fy mhoeni'n fwy o lawer na'r person ei hunan. Ymhlith ei gefnogwyr ceir nifer o Gristnogion ceidwadol, ac mae hynny'n destun rhyfeddod a phryder i mi. Yn ddyddiol mae rhywun yn ceisio deall ac esbonio'r gefnogaeth yna ac yn dal gafael yn y ddealltwriaeth o ddiffiniadau, diffiniadau o Dduw ac yn arbennig yr Efengyl, ac yn dod i'r casgliad parthed peryglon yr Efengyl. Beth yw ystyr y dweud yna ein bod yn bobl sy'n ceisio dilyn yr Iesu?

Yr adeg yma o'r flwyddyn fe fyddaf yn meddwl llawer am un o englynion Eirian Davies, sef *Mae'r Nos yn Ddu*:

“Hyd y wlad, Herod a'i lu – yn eu dull  
Sy'n dal i ormesu; .....”

Nid yn unig unigolion ond hefyd llywodraethau a chyfundrefnau, a'u heffaith ar fywydau'r diniwed a'r dieuog.

Person cymhleth oedd Herod, ym meddwl ac iaith heddiw, yn dioddef o sgitsoffrenia. Rhan o hynny oedd paranoia, yn credu ac yn poeni y byddai person grymusach a mwy effeithiol a hyderus yn ei ddi-orseddu. Dyna sy'n ei orchymyn i ddiennyddio yr holl blant:

“... aeth yn gynddeiriog, a rhoddodd orchymyn i ladd pob bachgen ym Methlehem a'r holl gyffiniau oedd yn ddwyflwydd oed neu lai ...”

Gweithred yn ei feddwl ef fyddai'n gwarchod ei orsedd a'r awdurdod.

Gyda'r gair 'Herod' mae Eirian Davies yn tanlinellu'r ddealltwriaeth gyffredinol o ddrygioni yn ei amrywiol ffyrdd mewn bywyd, a bod 'Herod' a'i ffeidd-dra yn rhan o fywyd heddiw a'r perygl o gyfranogi yn hyn mewn geiriau a gweithredoedd a meddyliau.

Ond mae'r englyn yn gorffen gyda'r geiriau yma:

“Ninnau, Dduw, a'r nos yn ddu.  
Arhoswn gyda'r Iesu.”

Yr alwad i ddilyn yr Iesu, i geisio Teyrnas Dduw, i ganiatáu i ffydd roi bod i weithredoedd daionus, i ddeall ystyr awdurdod dwyfol, wrth i ni bererindota a phrofi treialon a bendithion bywyd, ac wrth i ni geisio deall ystyr dioddefaint ac atgyfodiad yr Iesu.

Fel llawer i un arall, dwi'n hoff iawn o eiriau Efengyl Ioan yn ei ragarweiniad, y bennod gyntaf. Er bod rhywun yn cyffredinoli, gŵr cysyniadau oedd Ioan, ac mae'n cydied yn y ddealltwriaeth o fywyd Crist yn nhermau goleuni, y goleuni yna sydd o Dduw sydd â'r gallu i'n goleuo'n ysbrydol, foesol gan fygwth unrhyw ffurf ar dywyllwch a drygioni sydd yn y byd. Ac mae o'n dweud:

“Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y

mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.”

Y geiriau gogoneddus yna: “ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef”. Y mae drygioni yn ei ffurf amrywiol yn rhan o fywyd, ond mae Duw yng Nghrist wedi ac yn trechu'r drygioni yna, ac felly'r alwad i fyw yng ngoleuni'r goncwest.

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, a boed i ni wynebu'r misoedd sydd i ddod yn ysbryd a hyder y ddealltwriaeth yna.

Eifion.

## COFIWCH:

- Cymdeithas Gweddi a Choffi –  
bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom
- Astudiaeth Ffydd a Phaned –  
prynhawn Gwener am 2 o'r gloch
- Y Gymdeithas  
Nos Lun, 2 Chwefror am 7.00 o'r gloch – Blodau yng  
nghwmni Donald Morgan  
Nos Lun, 23 Chwefror am 7.00 o'r gloch – dathlu Gŵyl Ddewi  
yng nghwmni Ifan Gruffydd Tregaron – Gwesty'r Marine

AMDDIFFYNN I'N CŵM SAMWEL I'RHAN DDEUOLAIS  
CŵM SAMWEL I'RHAN DDEUOLAIS  
CŵM SAMWEL I'RHAN DDEUOLAIS  
CŵM SAMWEL I'RHAN DDEUOLAIS

**Saturday**  
**7/02/26 10:30am**  
**Dydd Sadwrn**

**Cwtch Mawr i Fronglais  
Bronglais Mega Hug**

**Bronglais Needs  
YOU!**  
**Mae Bronglais  
Angen CHI!**

Meeting at Sgwâr Owain Glyndŵr 10:30 before  
marching up to Bronglais at 11am.

# Newyddion Ebeneser

## Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi, gan ddymuno pob bendith i bawb ar ddechrau blwyddyn newydd.

## Llongyfarchiadau

i Ann a Michael Skitt ar enedigaeth eu gor-wyres, Awen - merch i Morgan a Ceri Skitt, ardal Y Gors, chwaer i Alaw Aur ac wyres i Mark ac Emma Skitt.

## Gwasanaethau mis Chwefror

1 Chwefror Gwasanaeth Cymun am 2.15

15 Chwefror Gwasanaeth am 2.15

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein gweinidog, Y Parchedig Eifion Roberts.

\*\*\*\*\*

# Newyddion Capel y Morfa

## Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar neu sydd wedi derbyn triniaeth ddydd: Ifor Davies, Jean Davies, Mary Evans, Mair Hughes, Dilys Lloyd, Nonna Owen ac Elfed Parry. Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi eu hunain.

## Geni

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Richard a Lauren Jones ar enedigaeth eu merch, Freya Meredith Jones - wyres gyntaf i Clifford Jones, Waunfawr.

## **Croesawu aelodau newydd**

Ym mis Tachwedd derbyniwyd Marian Delyth yn aelod yng Nghapel y Morfa. Ar fore Sul, 18 Ionawr, derbyniwyd Dilys Hughes yn aelod yn y gwasanaeth oedd o dan ofal ein gweinidog. Mae Dilys wedi symud o Drefnant ger Dinbych i fyw yn Y Lanfa, Trefechan. Croeso cynnes iawn i'r ddwy a gobeithio y byddant yn teimlo'n gartrefol yn ein plith.

## **Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Siôn a Janet Meredith, Jacob a Huw ar farwolaeth tad Siôn, sef Mr John Meredith, Bangor.

## **Penblwyddi**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Margaret Stephens ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ym mis Ionawr, ac i bawb sydd wedi dathlu neu fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y flwyddyn.

## **Blaenoriaid Newydd**



Dymunwn bob bendith i'n tri blaenor newydd sef Robin Huw Bowen, Huw Chambers a Hywel Lloyd. Cawsant eu hordeinio, ynghyd â Phillip Lodwick o gapel Seilo, Llamed, mewn gwasanaeth arbennig gynhaliwyd yn dilyn cyfarfod o'r Henaduriaeth nos Iau, 22 Ionawr yng Nghapel y Morfa. Roedd y gwasanaeth o dan arweiniad Dr. Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth. Traddodwyd y cyngor iddynt gan y Parch Carwyn Arthur, Llywydd presennol Sasiwn y De. Cawsant gyfle i gyflwyno eu hunain a'u cefndir ac i rannu gair o brofiad a'u hoff adnod. Roedd y tri yn diolch i gynulleidfa Capel y Morfa am ymddiried ynddynt i ymgymryd â'r gwaith.



Dyma ychydig o eiriau **Robin Huw Bowen**: “Cefais fagwraeth Gristnogol digon arferol y 1960au yn Lerpwl, rhwng capel MC Anfield Rd., ac ‘R.E.’ yr ysgol gynradd. Yn 1968 mi es i ysgol uwchradd Eglwys Loegr a’m cyflwynodd i addoliad Anglicanaidd. Yn y coleg wedyn, mi ddes yn aelod brwd o’r Methsoc – cymdeithas y Wesleiaid, a derbyn bendith yn eu mysgr.

Ond ar ôl ymuno â staff y Llyfrgell Genedlaethol yn 1980, dechreuais ymbellhau oddi wrth Dduw, a phwdu efo fo braidd, am fy mod mor anhapus a rhwystredig yn fy swydd yno. Efallai nad oedd fy ffydd yn ddigon cryf, bryd hynny, neu fod fy agwedd braidd yn anaeddfed.

Digon hawdd yw beio Duw, pan nad ydi pethau’n mynd yn iawn yn dy fywyd. Ond o dorri’n rhydd yn 1986, a ffeindio fy nghyfeiriad iawn yn y byd efo’r Deires, dechreuais ‘wneud ffrindiau’ efo Duw eto, wrth sylweddoli cymaint oedd wedi dod i fy rhan, a bod gen i achos mawr iawn i fod yn ddiolchgar iddo.

Ar ôl COVID, mi ddechreuwn i ddod i’r Morfa efo Mami wrth iddi ddechrau heneiddio, a derbyn croeso Cristnogol cynnes a diffuant yma. Ac yna ar ôl tipyn, mi ddaeth y ‘two-pronged attack’(!), yn gyntaf gan Dai Alun, ac yna gan Eifion ei hun, ... “Robin! ... Ydych chi wedi meddwl dod yn aelod efo ni?”, ac wrth gwrs, ‘mae’r gweddill yn hanes’!”



Yn ôl **Hywel Lloyd**, “cevais fy magu yn eglwys Seilo Aberystwyth a Chapel y Morfa. Tra ffwrdd yn astudio ym Mhrifysgol Morgannwg, mynychais gapel Methodistaidd a chapel Presbyteraidd Saesneg yn y dref. Cefais flas mawr wrth fynychu dosbarth Ysgol Sul i’r oedolion yng Nghapel y Morfa o dan arweiniad y Dr Bryn Roberts o 2007 tan 2020. Credaf fod dod at ein gilydd i astudio a thrafod yr ysgrythur yn parhau i fod yn bwysig

ac yn ffordd ô herio a chryfhau ein ffydd. Yr adnod a ddewisais fel hoff adnod oedd Ioan 10:11 “Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid”.



A dyma'r hyn a rannodd **Huw Chambers**. “Yr wyf o ardal Bangor yn wreiddiol, a bûm yn gweithio fel athro mathemateg yn ysgolion Môn am bedair mlynedd, cyn symud i Aberystwyth ym 1989, gan dreulio bron i 30 mlynedd hapus yn Ysgol Penweddig. Gorffen fy ngyrfa yn y coleg trydyddol yn Nolgellau, ac ymdeol rhyw dair mlynedd a hanner yn ôl. Yr wyf yn briod hefo Catherine, merch o St Brieuc yn Llydaw, ac mae gennyf dri o blant yn eu hugeiniau.

Cefais fy nerbyn yn aelod yng nghapel y Graig ym Mhenrhosgarnedd yn ddeunaw oed, ac yno bûm yn aelod tan tua chwarter canrif yn ôl, pan ddaeth yn amlwg nad oedd symud yn ôl i'r Gogledd i fod. Serch hynny, yr oeddwn wedi bod yn mynychu Capel y Morfa ers i mi ddod yma, gyda'r nos yn amlach na pheidio.

Bûm yn lwcus iawn i gael arweiniad pedwar gweinidog fel oedolyn, y Parchedigion Dafydd Lloyd Williams ac Eric Jones yn y Graig, a Pryderi Llwyd Jones ac Eifion Roberts yma.

Nid wyf yn berson blaengar na chyhoeddus – mae'n gas gennyf sefyll o flaen torf. Er fod hynny i weld yn rhyfedd i athro, roeddwn yn teimlo ar ôl pump diwrnod o siarad ac un arall o fytheirio ar gaeau chwarae fy mod yn hapusach i eistedd yng nghefn y capel nos Sul a chymryd fy nhro i wrando. Teimlwn fod hynny yn tawelu meddwl rhywun cyn ailgymryd â'r gwaith fore Llun. Fel yr hen raglen radio 'rhwng gŵyl a gwaith' oedd nos Sul. Cyfle i droi'r ymennydd at faterion dyfnach.

Ofnaf nad wyf wedi etifeddu yr un cadernid moesol ag yr oedd gan rai o fy nheulu – roedd fy nhaid a fy hen daid yn weinidogion- ond mae gennyf synnwyr cryf o ddyletswydd a chydwybod, a gobeithiaf ddilyn

hynny wrth gychwyn fel blaenor. O ran cyfraniad i'r Eglwys, nid wyf yn geffyl blaen o bell ffordd, ond er gwaethaf y ffaith nad ydw i'n daclus bob tro, dwi'n eithaf trefnus a gweithgar, ac yn dra ymarferol. Bùm yn drysorydd nifer o fudiadau dros y blynyddoedd, gan gynnwys gweithredu fel trysorydd presennol y Morlan. Mae fy mlynyddoedd fel athro wedi fy nysgu i fod yn amyneddgar ac yn hyblyg, a gobeithiaf fod yn gefn i'r gweinidog ac i'r achos yn gyffredinol. Mae arna i ofn mai prin tu hwnt fydd fy nghyfraniad i ochr gerddorol y capel!

Y darn o'r Beibl i mi ddewis ydi darn o lyfr Ruth. Yr oedd fy mam yn hoff iawn o'r darn yma, ac yn ei grybwyll yn aml yng ngwres brwydr yr iaith. Wrth gwrs, ni wyddai hi na finnau y buaswn yn priodi rhywun o dramor, gan wneud y stori yn fwy arwyddocaol byth.

Mae'n stori syml ond pwerus. Bron fel opera sebon dyner ynghanol "Epics" a "War Stories" yr Hen Destament – mae Ruth yn gwneud dewis ffyddlon a chariadus o'i gwirfodd. Nid yw'n gwneud hynny fel rhan o rhyw ragordeiniad nac yn sgil gorchymyn dwyfol. Mae'n dangos fod ewyllys rydd gennym i gyflawni gweithredoedd da. Mae'r goddefgarwch a'r agosatrwydd rhwng dwy sydd o genedlaethau a chenhedloedd gwahanol yn neges amserol."

## Y Clwb Sul

Ein thema y tymor hwn yw *Dechreuadau Newydd* - thema fydd yn ein harwain at y Pasg. Y stori gyntaf gyflwynwyd oedd stori Samuel a'r hanes amdano yn helpu Eli yn y Deml ac yn cynorthwyo i oleuo'r canhwyllau. Mae'r hanes am Dduw yn galw enw Samuel dair gwaith ac yntau yn ymateb y tro olaf yn gyfarwydd i ni. Cafodd Samuel, y proffwyd tawel a doeth, ei alw gan Dduw i ddewis ac eneinio brenin cyntaf Israel, sef Saul ac yna ei olynydd, Dafydd.

Mae'r lluniau yn dangos y gwaith crefft i gyd-fynd â'r storïau sef Canhwyllau Gweddi ar ddechrau 2026, a choronau a llusernau yn

goleuo yr hyn a welodd Duw yng nghalon Dafydd wrth iddo gael ei ddewis yn frenin.

*“Yr hyn sydd yn y golwg wêl dyn, ond mae’r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon.”*



### Gwasanaeth Nadolig - Golau Iesu sy'n fuddugol



## Man Cynnes yn y Morfa



Bob dydd Mercher, o 11 o'r gloch tan 2, mae drysau'r Festri ar agor ar gyfer y Man Cynnes sydd yn fan cynnes a chroesawgar yn cynnig te, coffi, cawl a chwmniaeth. Mae nifer wedi cynnig helpu a gwerthfawrogi bob cymorth. Yn ogystal â chynorthwyo'n ymarferol, mae sgwrsio, gwrandao a rhoi croeso yn bwysig dros ben.

Mae Lukas ac Elain o Ysgol Penweddig yn dod i gynorthwyo bob bore Mercher gyda dwy o staff yr Uned. Un ohonynt yw Michelle Rix sydd yn trefnu a chydlynu'r cyfan. Maent wedi sefydlu busnes, sef creu crefftau i'w gwerthu. Cyn y Nadolig cawsom ninnau yn y Man Cynnes gyfle i brynu labeli Nadolig ac anrhegion Nadolig a gynhyrchwyd ganddynt. Maent hefyd yn datblygu sgiliau marchnata a chyfrifiadurol ar yr un pryd gan lwyddo i godi £200 tuag at brynu adnoddau ar gyfer yr Uned.

Y tymor hwn maent yn ailgylchu ein tuniau cawl gwag yn yr ysgol trwy eu haddurno a'u troi yn llestri blodau a'u gwerthu gyda blodau ynddynt am £4 ar gyfer Dydd Santes Dwynwen ac yn nes ymlaen at Sul y Mamau.

Mae Elain a Lukas wedi rhoi llythyr i ni i ddiolch am y cyfle i ddod atom ond rydyn ni i gyd mor ddiolchgar iddynt hwy am gyfrannu cymaint i'r Man Cynnes trwy eu gwaith, eu cwртеisi a'u gwên.

## Y Plygain a'i apêl



*(Robin Huw Bowen, Arfon Gwilym a Sioned Weeb yn canu carolau plygain yng Nghapel y Morfa)*

Dros dymor y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd cynhaliwyd llawer i wasanaeth plygain. Mae'r arfer ar gynnydd, fel y gwelir o'r calendr o blygeiniau sydd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, a llawer man am ail-gydio yn yr hen arfer Cymreig hwn. Dyw'r canu plygain ddim yn gyfyngedig i gapeli ac eglwysi chwaith: er enghraifft, roedd noson o ganu plygain yn cael ei chynnal yn Beudy Llwyd, Yr Ysgwrn, Trawsfynydd ym mis Rhagfyr, yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys ac eraill.

Ond mae'n werth cofio taw hen draddodiad eglwysig yw'r plygain, ac nid dim ond rhyw fath o ganu carolau Cymraeg yn unig. Roedd gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig offeren, *Missa in galli cantu*, sef Offeren ar ganiad y ceiliog, oedd yn cael ei dathlu rhwng hanner nos a thri y bore ar ddydd Nadolig. Gair arall yn Lladin am ganiad y ceiliog yw *pullicantio*, ac oddi yno mae'r gair pylgain yn tarddu. Dyna hen ffurf ar y gair: plygain i ni heddiw. Gwasanaeth ar ganiad y ceiliog oedd y plygain ar fore dydd Nadolig, pan fyddai pobl yn heidio i'r llan i groesawu'r Crist newydd-anedig. O'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen, wrth i ganu cynulleidfaol ddatblygu, sefydlwyd arfer o ychwanegu carolau at y gwasanaeth gwreiddiol, a datblygiad o'r patrwm hwnnw sydd gyda ni heddiw.

Mae llawer o'r carolau sy'n cael eu canu ym mhlygeiniau heddiw yn mynd yn ôl i'r ddeunawfed ganrif, y cyfnod mae'n debyg pan ddaeth y gwasanaeth plygain i'w lawn dwf. Roedd yn cael ei ddathlu mewn sawl ardal, ond erbyn yr ugeinfed ganrif roedd y traddodiad wedi edwino, ac yn sir Drefaldwyn y cadwyd yr arfer yn bennaf. Diolch i Amgueddfa Werin Sain Ffagan, recordiwyd peth o'r canu traddodiadol hwn, ac mae clywed y recordiau hynny wedi bod yn sbardun i sawl ardal trwy Gymru a thu hwnt i sefydlu plygeiniau o'r newydd.



*(Carol y Swper yn cael ei ganu yn Eglwys Sant Garmon, Llanarmon Dyffryn Ceiriog 2015)*

Mae'r carolau plygain traddodiadol yn bur wahanol i lawer o'n carolau cyfoes. Maent yn aml yn hir, ac yn bwysicach, yn cwmpasu llawer mwy na hanes y geni ym Methlehem. Amcan llawer o'r carolau hyn yw esbonio trefn y cadw o'r cwmpus yng ngardd Eden i'r drefn achubol ar y groes, a gosodir Bethlehem yn ei le yn rhan o'r drefn fawr honno. Erbyn heddiw rydym yn tueddu canu detholiad o'r penillion yn unig, ond mae'n dda clywed carolau sy'n fwy swmpus ac athrawiaethol na llawer o'n carolau ysgafn cyfoes. I'r hen blygeinwyr roedd yn gyfle i ddathlu nid dim ond cariad Bethlehem ond y cariad sy'n parhau. Fel y

dywed Dafydd Ddu Eryri, er enghraifft, yn ei garol 'Ar dymor gaeaf, dyma'r wyl':

Fe bery cariad Iesu cu  
Fyth i'w ryfeddu'n faith;  
Datganu ei fawl, ryglyddawl glod,  
Sydd ormod, gormod gwaith:  
Hyn oll yn awr a allwn ni,  
Sef llawen godi llef;  
Pa fodd yn well i seinio clod  
Cawn wybod yn y nef.

Gair personol i gloi. Er fy mod wedi mwynhau gwasanaethau plygain mewn mwy nag un man, doedd y plygain ddim yn rhan o'm magwraeth. Eto i gyd, roedd y gair yn rhan o eirfa'r cartref, ac yn dynodi cyfnod hir. Byddai 'Nhad yn defnyddio'r ffurf 'pylgen/bylgen' ac yn dweud, 'O'n i'n disgwyl am fylgen' i olygu ei fod wedi gorfod aros yn hir yn rhywle. Byddai Mam yn dweud, 'Byddwn ni 'ma tan blygen' pan fyddai oedi mawr. Mae'n Nadolig ni yn mynd heibio mewn amser byr: da yw cael ein hatgoffa am gyfnod hir o ddathlu mewn cerddi hir holl ryfeddod Bethlehem a threfn y cadw.

Rhidian

\*\*\*\*\*

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwenan a Nest.  
Diolch i bawb am eu cyfraniadau, yn destun a lluniau.

Golygyddion rhifyn Mawrth 2026 yw Eifion ac Alwen. Deunydd i'w hanfon atynt erbyn 20 Chwefror 2026 fan bellaf os gwelwch yn dda:  
[eifionroberts095@btinternet.com](mailto:eifionroberts095@btinternet.com)

## Cymdeithas y Morfa

### Cass Meurig a Gwilym yn swyno cynulleidfa'r Morlan



Braint i Gymdeithas y Morfa a chyfeillion oedd cael cwmni Cass Meurig a'i mab Gwilym yn y Morlan nos Lun 19 Ionawr. Mae Cass Meurig yn gerddor Cristnogol sydd newydd symud i wasanaethu yn Llanfyllin a'r fro. Mae'n cyfansoddi a pherfformio ei chaneuon ysgrythurol, emynau cynulleidfaol a gosodiadau o'r litwrgi i alawon gwerin Cymreig.

O glywed ei pherfformiad arbennig yn y Morlan dyw hi ddim yn syndod clywed ei bod wedi cael gael gyrfa lwyddiannus ym myd cerddoriaeth draddodiadol cyn iddi fynd i'r weinidogaeth. Yn 2012 daeth galwad ysbrydol na allai ei gwrthod a rhoddodd y gorau i'w gyrfa mewn cerddoriaeth seciwlar. Yr ymateb i ambell feirniadaeth ar ei phenderfyniad oedd sail un o'r caneuon – cân a ysgrifennwyd ar alaw Cân Wil y Tloty a oedd yn gân brotest ac yn atseinio drwyddi roedd y "tangnefedd sy'n llenwi fy mron".

Ymhlith eraill roedd cân berthnasol i gyfnod yr Ystwyll, dwy yn seiliedig ar benodau o Esea, un arall ar hanes Jona, emyn eco yn seiliedig ar bennod 8 Rhufeiniaid a cân am gariad yn seiliedig ar lythyr enwog

Paul at y Corinthetaid. Roedd pob un o'r caneuon yn hynod o swynol – yn cael eu canu i gyfeiliant y ffidil, piano, y crwth neu'r gitâr. Yn wir rhaid peidio anghofio am berfformiad arbennig Gwilym ar y gitâr – roedd ei uanwau a'i gyfeiliant hudolus yn asio'n berffaith i eiriau cwbl ddidwyll a oedd yn llawn gobaith.

Mae Gwilym yn fyfyrwr yn Aberystwyth yn astudio Bioleg y Môr a braf oedd croesawu nifer o'i ffrindiau a chynulleidfa ehangach atom.

Hwn oedd cyfarfod cyntaf y gymdeithas yn 2026 gan i'r tywydd garw ein rhwystro rhag cael cwis Robin Huw Bowen ac fe fydd hwnnw felly yn cael ei gynnal ar ddiwedd ein rhaglen o ddigwyddiadau.



Mae'r Nadolig bron yn angof ond mae seiniau swynol Triawd Rhydlywd yn para yn y cof. Cawson wledd hyfryd o ganu plygain gan Efan Williams, Carys Ann Davies a Barry Powell ar yr 8fed o Ragfyr – y triawd wedi ffurfio ar gyfer plygain cyntaf Lledrod yn 2023.

Diolch i bob cyflwynydd, diolchydd a phob gwneuthurwr te ond yn fwy na dim diolch am y cyfle i gydgyrdeithasu mewn awyrgylch gynnes.

Donald Morgan fydd y gwestai nesaf ac fel un sy'n gyfarwydd â gosod blodau yn y Morfa dyw hi ddim yn syndod mai sôn am ei ddiddordeb yn y maes hwnnw y bydd e. Edrychwn ymlaen a chroeso i bawb.

## Edrych yn ôl ar 70 mlynedd yn y Pulpud – Ambell Atgof

(Bu'r Athro John Tudno Williams yn ymwelydd cyson â Chapel y Morfa dros y blynyddoedd, a chafodd y gynulleidfa yma, fel mewn cynifer o eglwysi eraill, fendith o'i arweiniad. Diolch yn fawr i chi John am eich gwaith ar hyd y blynyddoedd a dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol. Dymunwn yn dda i Ina, gwraig John, hefyd wedi iddi dreulio ychydig fisoedd yn Ysbyty Bronglais a pharatoi ar gyfer symud i Gartref Cwmcynfelin.)



Dechreuais bregethu pan oeddwn yn dal yn yr ysgol yn Llundain. Cefais fy rhoi ar restr pregethwyr yr Henaduriaeth wedi imi gael fy nerbyn yn ymgeisydd am y weinidogaeth yno, gan bregethu i gynulleidfaoedd a

wahaniaethai'n fawr o ran nifer. Er enghraifft, ceid hanner dwsin yn Jewin ar fore Sul ond yn yr hwyr byddai Neuadd Cymry Llundain yn Gray's Inn Road yn llawn. Mae'n debyg mai galwadau'r rownd laeth ar fore Sul oedd i gyfrif am hyn. Roedd Capel Charing Cross hefyd â chynulleidfa fawr ar nos Sul, gyda llawer o bobl ifanc a oedd wedi dod i Lundain i weithio neu astudio yn mynychu yn y cyfnod hwnnw.

Wedi imi ddod i Aberystwyth yn fyfyrwr yn y Coleg Diwinyddol cefais ddigon o gyfle i bregethu ym mhulpudau'r Henaduriaeth a thu hwnt ac ymhen tair blynedd cefais alwad i ofalaeth Y Borth a dod i adnabod eglwysi'r cylch yn dda iawn. Derbyniais groeso mawr ym mhob man yn y capeli eu hunain ac ar aelwydydd yr aelodau a oedd yn 'cadw'r mis'.

Gofynnwyd imi fwy nag unwaith prun oedd yr oedfaon mwyaf cofiadwy dros y blynyddoedd. Doeddwn i ddim yn 'bregethwr Sasiwn': yn wir, hyd y cofiaf, yr unig dro imi gyflawni'r gorchwyl hwnnw oedd yn Llanddewi-Brefi flynyddoedd yn ôl. Ond fe gefais gyfleoedd diddorol i bregethu neu gymryd rhan mewn gwasanaethau nodedig pan oeddwn yn Llywydd Eglwysi Rhyddion Cymru a Lloegr yn 1990-1. Un o'r achlysuron hynny oedd y Gwasanaeth Blynyddol i Ddathlu'r Gymanwlad yn Abaty Westminster pan offrymais weddi, a hynny o flaen y Frenhines Elizabeth a oedd wedi mynegi anfodlonrwydd wrth fy rhagflaenydd am iddo fod yn rhy 'lawdrwm' ar Brydain am ei hymddygiad at wledydd tlawd y Gymanwlad yn y gorffennol. Profiad unigryw oedd pregethu o flaen can mil o bobl mewn stadiwm yn Shillong, Gogledd yr India, pan oeddwn yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Fesul brawddeg yr oeddwn yn traddodi yn Saesneg gyda phrifathro'r Coleg Diwinyddol lleol yn cyfieithu i'r iaith Khasi bob yn ail â mi. Y feirniadaeth ar y bregeth honno a glywodd Ina oedd ei bod yn rhy fyr!

Fe ddyfynnir dywediad adnabyddus y diwinydd mawr o'r Swistir, Karl Barth, yn aml: dylai'r pregethwr fynd i'r pulpud gyda'r Beibl yn y naill law a'r papur newydd dyddiol yn y llaw arall. Ceisiais ddilyn y cyngor hwn ar hyd y blynyddoedd wrth imi ymdrechu i geisio sicrhau bod fy mhregethau yn berthnasol ac yn gyfoes.

John Tudno Williams

\*\*\*\*\*

## Cinio Bara a Chaws



Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn Neuadd Eglwys Llanbadarn ddydd Llun, 2 Chwefror rhwng 12.00 a 1.30pm.

**Croeso cynnes i bawb!**

# Llwyddiant yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru

Un o raglenni cwmni cynhyrchu Tonnau o Aberystwyth a gipiodd y wobr am y 'Rhaglen Newyddion a Materion Cyfoes Sain y Flwyddyn' yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru 2025.

Yn wythnosol mae cwmni Tonnau yn cynhyrchu yr *Oedfa* a *Bwrw Golwg* ar gyfer Radio Cymru ac yn achlysurol ambell raglen unigol. Un o'r rhaglenni hynny sef *Islam, Cymru a Ni* oedd yn fuddugol yn y seremoni ganol Ionawr. Cafodd y rhaglen ei chynhyrchu gan Gwenfair Griffith a John Roberts ac roedd hi'n dilyn taith Lena Mohammed o Wrecsam wrth iddi archwilio ei pherthynas â ffydd a hynny yn ystod blwyddyn o Islamophobia ym Mhrydain.

Mae Gwobrau Cyfryngau Cymru yn agored i newyddiadurwyr radio, teledu ac ar-lein yn Gymraeg a Saesneg drwy Gymru gyfan a braf gwelod bod dwy newyddiadurwraig ifanc o Aberystwyth wedi'u henwebu hefyd. Cafodd Anest Eirug a Gwen Aeron eu henwebu yn y categori newyddiadurwr ifanc a Gwen hefyd yn y categori i fyfyrwyr.



## Beth yw dyfodol ein heglwysi?

*(Erthygl a ymddangosodd ar Cymru Fyw wrth i EBC baratoi at gynhadledd arbennig yn Wrecsam. Diolch Sara Down-Roberts.)*

"Mae'n rhaid i'r ffordd ry'n ni'n rheoli eglwysi newid yn fuan neu bydd hi'n rhy hwyr", medd Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru wrth i nifer yr aelodau ostwng yn sylweddol.

11,203 sydd o aelodau bellach yng nghapeli Cymraeg a Saesneg yr Eglwys Bresbyteraidd a dim ond 275 sydd o dan 25 oed. Roedd nifer yr aelodau yn 1966 yn 122,646.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae 20 capel wedi cau ac mae llai nag ugain aelod yn 57% o'r 442 eglwys sydd ar ôl. Nid oes gweinidog mewn dros 50% o eglwysi.

Wrth siarad â Cymru Fyw dywedodd Ms Powell-Davies ei bod "yn hurt bod 64% o gyllid yr Eglwys Bresbyteraidd (53% ar yswiriant) yn cael ei wario ar hyn o bryd ar adeiladau lle dylid fod yn gwario ar gryfhau cenhadaeth".

"Dwi ddim yn teimlo bod eglwysi lleol yn cael digon o gefnogaeth o'r canol - ac mae nifer yn penderfynu cau pan fo'r to yn gollwng neu'r boiler yn torri. Mae angen penderfynu ar y dyfodol ymhell cyn hyn a rhaid i ni gymryd camau dewr gyda'n gilydd.

Ddydd Mercher 28 Ionawr 2026 bydd cynhadledd arbennig yn cael ei chynnal yn Wrecsam i ystyried symleiddio llywodraethu, cryfhau

cenhadaeth, ac ymateb yn realistig i'r amgylchiadau newidiol sy'n wynebu eglwysi ledled Cymru.

"Yr hyn sy' da fi mewn golwg yw fod pawb yn trafod hyn ar yr un lefel - mae hynny'n cynnwys yr Eglwys Bresbyteraidd yn ganolog, blaenoriaid a'r gynulleidfa.

"Os nad oes trafodaeth gall a meddylgar ar ein heglwysi does dim dyfodol. Rhaid i ni fel enwad ddod yn nes at ein pobl a chyfathrebu yn fwy effeithiol."



Ddiwedd Chwefror bydd capel Pen-uwch, ardal wledig ger Tregaron yn cau ei ddrysau am y tro diwethaf.

Cafodd ei godi'n wreiddiol yn 1839. Mae'r adeilad wedi ei addasu'n gyson ond eleni doedd yna ddim dewis arall

ond cau, medd y Parchedig Stephen Morgan a fydd yn gyfrifol am y gwasanaeth datgorffori.

"Mae wedi bod yn fraint bod yn weinidog ar y capel bach hwn ym Mhen-uwch ond rhaid derbyn mai cau yw'r unig ddewis bellach. Prin yw'r aelodau ac ers dwy flynedd does 'na ddim gwasanaeth wedi bod yma," meddai.

"Yn anffodus rhaid i ni dderbyn yr amgylchiadau. Mae'r ffyddloniaid yn heneiddio a nifer wedi marw.

"Ry'n ni yn oes y cilio. Yn ne Ceredigion yn unig mae 28 o gapeli rwy' i wedi bod yn pregethu ynddyn nhw ar hyd y blynyddoedd wedi cau."

Wrth gyfeirio at y gynhadledd dywedodd Nan Powell-Davies bod "rhaid i ni gyd ystyried bod gwaith yr eglwys yn newid a bod yn rhaid addasu i ofynion yr oes".

"Does yna ddim ffiniau i genhadaeth. Yn ddiweddar yn Yr Wyddgrug, er enghraifft, ry'n ni wedi bod yn gweithio gyda ffoaduriaid. Mae 'na brosiectau cymunedol llwyddiannus iawn hefyd yn sail i eglwysi newydd ym Mlaenau Ffestiniog a Phontypridd.

"Roeddwn i am gael cynhadledd yn hytrach na phwyllgor gan bod cynhadledd yn cynnwys pawb - nid dim ond cynrychiolwyr. Dwi'n meddwl bod digwyddiad o'r fath yn deffro pobl rywfaint i'r hyn sy'n digwydd.

"Mae gwaith mawr i'w wneud ac mae wedi bod yn llawer cliriach bod pobl ar lawr gwlad angen cymorth ymarferol ar unwaith cyn bod yna ormod o bwysau i benderfynu ar y dyfodol."

Mae'r digwyddiad yn Wrecsam yn dilyn cynhadledd a gafodd ei gynnal yn Llandudno ym mis Ebrill 2025 ar y thema 'Beth yw ystyr y meini hyn i chwi?' Yn y gynhadledd honno cafodd cynulleidfaoedd lleol eu hannog i ystyried gwneud defnydd creadigol a chymunedol o'u hadeiladau.

"Yn amlwg bydd adeiladau o dan y chwyddwydr unwaith eto wrth i'n gwariant arnyn nhw fod yn enfawr - ond yn bennaf bydd ein pwyslais y tro hwn ar gydweithio er mwyn sicrhau dyfodol sicrach i'n gwaith go iawn," ychwanegodd Ms Powell-Davies.



## Gweddi



### Cariad Duw a'n Cariad Ninnau

Diolch i ti, O Dduw ein Tad,

mai mewn cariad yr wyt ti wedi delio â ni erioed.

Yn dy gariad y creaiast ddyn at dy lun a'th ddelw dy hun

a gwneud byd yn llawn cyfoeth ac amrywiaeth ar ei gyfer.

Yn dy gariad daethost yn agos iawn atom

yn dy Fab, Iesu Grist,

gan ddangos dy hun yn Dad tyner a graslon.

Yn ei dosturi ef,

yn ymgeleddu'r gwan,

yn cysuro'r anghenus

ac yn iachau'r cystuddiol,

dysgodd i ni wir ystyr cariad.

Yn ei unigrwydd a'i ddioddefaint,

yn ing ac angau'r groes,

datguddiodd i ni ddyfnder a dirgelwch y cariad dwyfol.

Diolchwn mai yn y cariad hwn

yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod,

a bod dy gariad di yn gorlifo

i bob perthynas o gariad rhyngom a'n gilydd:

â'n hanwyliaid, ein cyfeillion, ein cymdogion

a'n cyd-ddynion ym mhob man.

Bendithia'n cyfeillion a gwna ni bob amser

yn ffyddlon i'n gilydd,

yn barod ein cymwynas,

ac yn werthfawrogol o bob caredigrwydd.

Bendithia'n hanwyliaid a'n teuluoedd:

gwna ni'n rasol ac amyneddgar

ac yn ofalus bob amser o les ein gilydd.

Bendithia ni yn ein hymwneud â'n cyd-ddyn:

yn arbennig cynorthwya ni  
i garu'r digyfaill,  
y gwrthodedig,  
â'r rhai nad yw'n hawdd i ni eu hoffi.  
Dysg ni oll i garu fel y carodd Crist;  
i dyfu mewn gras,  
mewn tosturi ac mewn brawdgarwch,  
ac i adlewyrchu'n wastad  
ei gariad rhyfeddol a diderfyn ef.

Amen

(Golygydd allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

## SULIAU CHWEFROR 2026

### **Blaenor y mis: Rhidian Griffiths**

- 1 Chwefror – Eifion Roberts (Cymun)
- 8 Chwefror – Eryl Wynn Davies
- 15 Chwefror – Eifion Roberts
- 22 Chwefror – Beti Griffiths

### **Blodau**

- 1 Chwefror – Dilys Lloyd a Hywel
- 8 Chwefror – Elsbeth M. Lewis
- 15 Chwefror – Deian a Gwenan (elusen)
- 22 Chwefror – Gwerfyl (elusen)